# Crynodeb Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangywer (cyn cadarnhau'r Cofnodion)

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 22/6/20<br>Zoom | Dim | Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) | Cais Ty'n Twll i osod 3 ffenest yn y to (12/3/20) – **Cofnodwyd** y trafodwyd a chymeradwywyd trwy ffôn ac e-bost; derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Gwyn Roberts.<br><br>Derbyniwyd Praesept £2000.  Taliadiadau: Dosbarthu prydau bwyd £75; Darparu ppe £100; Mynwent £500; Yswiriant £116.88<br><br>Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2019-20, gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/20. |
| 7/9/2020<br>Canolfan Henblas | Dim | Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones,  Gwyn Roberts, W D Williams<br>Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd),  Lis Puw (Clerc) | Cytunwyd gyda'r dymuniad i gael cyfarfod gyda Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i drafod cam ddefnydd ardal y llyn gan dwristiaid.<br><br>Diolchwyd i Emyr Puw am gyflawni'r gwaith ar fapio'r beddau a chytunwyd i gydnabod ei waith.<br><br>Cytunwyd i ofyn i Chris Ellis wneud y gwaith angenrheidiol o dorri masarnen a thocio gordyfiant eiddew.<br><br>Derbyniwyd ail ran y Praesept, £2000<br><br>Cytunodd y Cynghorwyr i dynnu llun neu anfon gwybodaeth am gynnwys y biniau halen yn eu hymyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cytunwyd i brofi’r offer cynnal bywyd yn y ciosg yn Rhosygwaliau ac yn Llangywer.<br><br>**NP5/70/LB107B + C:** Dymchwel allandy presennol ac adeiladu iyrt yn ei le gyda ffens bren o’i amgylch _ caniatâd i ddymchwel Adeilad Rhestredig o fewn cwrtil Adeilad Rhestredig Tŷ’n y Wern, Rhosygwaliau – CYMERADWYWYD O FEWN CANLLAWIAU’R PARC A CADW<br><br>**NP5/70/ LB107C**: Annedd menter wledig (gan gynnwys system trin carthffosiaeth) Llechwedd Ystrad, Llanuwchllyn - CYMERADWYWYD, GAN OFYN AM GYNNWYS AMOD NA FYDD YN CAEL EI OSOD FEL LLETY GWYLIAU<br><br>Cytunwyd i gefnogi cais Cyngor Cymuned Llanllyfni am gefnogaeth i’w cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd drefnu cyfarfod i drafod codi tâl ar gerddwyr yr Wyddfa gan ychwanegu hefyd yr angen i reoli mynediad at y ddwy Aran, at Gadair Idris ac at Lyn Tegid, gan eithrio pobl Gwynedd rhag dalu. |
| 9/11/20 Canolfan Henblas | Dim | Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) | Talwyd 1/3 aelodaeth SLCC (£46.66); Gwasanaeth Archwilio Cyfrifon Cyngor Gwynedd (£192); cyfraniad tuag at gynnal swyddfa am y flwyddyn 2020 (£330). Taliad ico (£35) yn mynd o’r banc yn Rhagfyr. |
| 11/1/21 Teams | Dim | Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Emyr Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) | Taliadau: H G WEB Design £150; Swyddfa Archwilio Cymru £168.72; Torri gwrych y fynwent £78 Gosodwyd lefel y praesept 2021-22 yn £4250 Cytunwyd i holi prisiau cynnal a chadw’r fynwent am y flwyddyn 2021. |
| 22/2/21 Teams | Emyr Jones a Gwyn Roberts mewn ceisiadau cynllunio a | Tyly Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies, Eleri Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc) | Cytunodd y Clerc i holi am yr elor geffyl o fewn yr Eglwys.<br><br>Derbyniwyd pris am dorri gwair y fynwent haf 2022. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | drafodwyd dros e-bost/ffôn | | Cytunwyd i gyfrannu fel a ganlyn ar hyn o bryd: Neuadd Llangywer £650; Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £200.<br><br>Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am y flwyddyn 2020-21<br><br>Cytunwyd i anfon copi o lythyr Cyngor Tref Nefyn parthed dwysedd tai gwyliau at Julie James AS |